08 January 2021

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Y bore yma fe gyhoeddodd Prif Weinidog Cymru newidiadau pellach i ysgolion yng Nghymru. Dyma grynodeb o'r prif bwyntiau:

- Bydd pob plentyn, ac eithrio disgyblion agored i niwed â blaenoriaeth uchel a phlant gweithwyr hanfodol, yn parhau i gael eu dysgu o bell tan 29 Ionawr. Os nad yw cyfraddau'r feirws wedi gostwng erbyn y dyddiad yma, bydd ysgolion yn parhau i ddysgu o bell tan y gwyliau hanner tymor mis Chwefror.
- Dim ond plant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, ynghyd â disgyblion sy'n sefyll arholiadau ac asesiadau hanfodol, fydd yn cael mynediad i addysg ar safle'r ysgol tan 29 Ionawr (neu tan hanner tymor mis Chwefror os yw'r cyfraddau'n parhau i fod yn uchel).
- Nid yw ysgolion yn fwy anniogel nawr, nac yn peri risg uwch i athrawon na phlant. Serch hynny, mae'r amrywiad Covid-19 newydd yn fwy heintus o lawer ac mae'n arwain at niferoedd cynyddol o bobl yn mynd yn sâl ac yn gorfod cael triniaeth yn yr ysbyty.
- I'r sawl sy'n astudio ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch, penderfynwyd canslo asesiadau tymor y gwanwyn. Roedd disgwyl i'r rhain gael eu cynnal rhwng 22 Chwefror a 23 Ebrill. Bydd trefniadau asesu diwygiedig ar gyfer dyfarnu'r cymwysterau yma yn ystod haf 2021 yn cael eu rhoi ar waith yn fuan, a bydd rhagor o wybodaeth yn dilyn maes o law.
- Bydd staff ysgolion arbennig sy'n darparu gofal personol agos i blant ag anghenion meddygol cymhleth yn cael eu cynnwys yn rhan o'r rhestr flaenoriaeth ar gyfer brechu, a hynny er mwyn diogelu bod y disgyblion sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu diogelu.

O ddydd Llun 18 Ionawr, bydd ysgolion yn parhau i ddarparu addysg ar y safle i blant gweithwyr hanfodol. Mae rhywfaint o newid wedi bod o ran pwy sy'n gymwys, a bydd yn cynnwys y grwpiau canlynol o weithwyr yn unig:

- Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol (gan gynnwys staff cartrefi gofal).
- Gweithwyr ym maes diogelwch y cyhoedd (gweithwyr brys) a gweithwyr diogelwch cenedlaethol
- Gweithwyr ym maes addysg a gofal plant
- Gweithwyr yn y diwydiant bwyd a nwyddau angenrheidiol eraill (nodwch fod hwn yn gategori ychwanegol).

Os ydych wedi ystyried yr holl opsiynau gofal plant posibl eraill ac yn wirioneddol heb unrhyw ddewis arall ac yn gorfod gweithio, rhowch wybod i'r ysgol am eich gofynion ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 18 Ionawr erbyn dydd Llun 11 Ionawr. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn ei gwneud hi'n ofynnol i un rhiant weithio yn un o'r meysydd gwaith sydd wedi'u nodi er mwyn cael mynediad at addysg yn yr ysgol.

Bydd y trefniadau ar gyfer disgyblion agored i niwed â blaenoriaeth uchel yn aros yr un fath.

Nodwch, bydd cyfyngiad ar nifer y lleoedd i sicrhau iechyd a diogelwch eich plentyn a staff yr ysgol yn ystod y cyfnod pryderus yma. Gartref yw'r lle mwyaf diogel ar gyfer eich plentyn ar hyn o bryd, ond os yw'n hanfodol, mae modd i'ch ysgol ddarparu addysg i ddisgyblion agored i niwed a phlant

gweithwyr hanfodol ar safle'r ysgol. Pan fo'r galw am leoedd yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd ceisiadau'n cael eu blaenoriaethu ar sail angen. Os oes gyda chi unrhyw bryderon neu amgylchiadau eithriadol, trafodwch y rhain yn uniongyrchol gydag ysgol eich plentyn. Mae'r ddarpariaeth ar y safle ar gyfer addysg, nid gofal plant, gan fod staff ysgol yn dal i fod yn gyfrifol am ddarparu addysg o bell i bob plentyn trwy gydol y diwrnod ysgol. Yn ogystal â hyn, byddan nhw'n parhau i ddarparu cymorth lles o bell i'r rhai sydd angen hynny.

Diolch i chi am eich amynedd parhaus ac am gefnogi addysg eich plentyn yn ystod y cyfnod heriol iawn yma.

Diolch yn fawr

Gaynor Davies

Director of Education and Inclusion Services
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

RHONDDA CYNON TAF

08 January 2021

Dear parent/carer

This morning the First Minister announced further changes for schools in Wales. The key elements are summarised as follows:

- All children, with the exception of high priority vulnerable learners and the children of critical workers, will continue to access remote learning until the 29th of January. If rates of infection have not reduced by this time, schools will continue with remote learning until the February half-term break.
- Only high priority vulnerable children and the children of critical workers will have access to on-site education in schools along with learners undertaking essential exams and assessments until the 29th of January (or until the February half term if rates remain high).
- Schools are not more unsafe now or pose a higher risk for teachers and children. However, the new variant of Covid-19 is far more infectious and is leading to increased numbers of people falling ill and being hospitalised.
- For GCSE, AS and A level learners, a decision has been made to cancel the spring term assessments that were planned to take place between 22th February and 23rd April. Revised assessment arrangements for the award of these qualifications in summer 2021 will be put in place shortly and further information will follow in due course.
- Special school staff that provide intimate personal care for children with complex medical needs will be included as part of the priority list for vaccination to ensure that the most vulnerable are kept safe.

From the Monday the 18th of January, schools will continue to provide education for the children of critical workers on school sites. Eligibility has changed slightly and will only include the following groups of workers:

- Health and social care workers (including care home staff).
- Public safety (emergency workers) and national security workers.
- Education and childcare workers.
- Food and other necessary goods workers (please note this is an additional category)

If you have explored all possible childcare options and genuinely have no other alternative and have to work, then please advise the school by Monday the 11th of your requirements for the week commencing the 18th of January. The current legislation only requires one parent to work in one of these outlined areas of work to access school-based education.

Arrangements for high priority vulnerable learners will remain unchanged.

Please note, that places will be capped to ensure the health and safety of your child and school staff during this concerning period. The safest place for your child currently is at home but if essential, your school can provide education for vulnerable learners and the children of identified critical workers in school. Where demand for places exceeds supply, requests will be prioritised based on need. If you have any concerns or exceptional circumstances, please raise these directly with your child's school. On-site provision is for education and not childcare, as school staff still have a

responsibility to deliver education remotely to all children throughout the school day. In addition to this, they will continue to provide remote wellbeing support for those that require this.

Thank you for your continued patience and for supporting your child's learning during these very challenging times.

Many thanks

Gaynor Davies

Director of Education and Inclusion Services
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

RHONDDA CYNON TAF